CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI COMMUNITY COUNCIL

LLAWLYFR

Rhan 1

1. CROESO

Dyma lawlyfr Cyngor Cymuned Y Felinheli. Mae'n darparu canllaw i'r darllenwr i'w arwain trwy waith a chyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned.

Dangosir ffiniau'r cyngor cymuned ar fap rhif un.

2. PWRPAS

Prif bwrpas y Cyngor Cymuned yw cynrychioli buddiannau trigolion cymuned Y Felinheli a hyrwyddo lles yr ardal leol. Gwneir y gwaith yma'n bennaf trwy gyflwyno datganiadau i awdurdod unedol yr ardal (Cyngor Gwynedd), cyrff eraill megis Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn cynnwys materion a fydd yn berthnasol i Gynghorydd Cymuned y ward, yr AC, AS a'r ASE.

Mae gan y cyngor gyfrifoldeb uniongyrchol dros nifer o dasgau gan gynnwys rheoli'r Neuadd Goffa, mynwent gymunedol Llanfair-is-gaer a maes parcio. Mae'r Cyngor yn torri'r gwair ar lwybrau cyhoeddus o dan gytundeb asiantaeth hefo Cyngor Gwynedd.

3. RHEOLAU A CHYFANSODDIAD

Mae rheolau a chyfansoddiad y cyngor wedi eu hamlinellu yn Rhan 2. Anogir aelodau newydd o'r cyngor i wneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r dogfennau yma.

Ni fwriadwyd bod dim yn y rheolau yma'n gwrthdaro â'r rheolau cenedlaethol a osodwyd i gynghorau cymunedau a threfi, na'r rheolau sefydlog ac arweiniad y cadeirydd fel y'u cyflwynir o bryd i'w gilydd gan UNLLAIS Cymru, corff cenedlaethol cynghorau tref a chymunedau yng Nghymru.

4. SAFONAU YMDDYGIAD

Disgwylir i aelodau'r cyngor ymddwyn yn unol â'r codau ymddygiad sy'n berthnasol i aelodau etholedig o gynghorau cymuned. Gofynnir i Gynghorwyr gadw at y rheolau manwl a gyhoeddwyd at y pwrpas hwn. Cedwir copïau o'r côd gan y clerc, neu maent ar gael o Gyngor Gwynedd.

Mae aelodau'r cyngor wedi derbyn copïau o'r llawlyfr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru "Canllaw'r Cynghorydd Da" a sylwer ar y cyngor a gynigir am ymarfer da.

5. POLISI CYFLE CYFARTAL:

1. Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli yn ymrwymo i wrthwynebu hiliaeth, rhywiaeth a phob math o ragfarn sy'n cael ei wynebu gan bobl o leiafrifoedd ethnig, merched, pobl sydd ac anabledd, lesbiaid a dynion hoyw.

2. Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli yn datgan y bydd yn gweithio yn erbyn pob rhagfarn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ei ymarferion cyflogaeth ac yn narpariaeth ei wasanaethau.

3. Bydd Cyngor Cymuned Y Felinheli yn gweithredu yn gadarnhaol i wneud y polisi yma'n gwbl efeithiol ac yn sicrhau na fydd yr un ymgeisydd am swydd yn derbyn ystyriaeth llai ffafriol ar sail ei hil, rhyw, lliw, cenedligrwydd, cefndir ethnig neu darddiad cenedlaethol, statws priodasol, tueddiadau rhywiol, anabledd neu oedran.

4. Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli yn cadarnhau bydd pob cyfundrefn a sefydlir yn sgil yr ymrwymiadau uchod yn cael eu monitro er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a gwneir newidiadau lle'n addas.

6. **CLERC/SWYDDOG ARIANNOL**

Mae'r cyngor yn cyflogi clerc sydd hefyd yn gweithredu fel Swyddog Ariannol cyfrifol y Cyngor. Fe apwyntir y clerc trwy recriwtio agored ac ar delerau ac amodau a benderfynwyd trwy drafodaethau cenedlaethol, ac a wiriwyd gan y Cyngor. Gweithreda'r clerc trwy ddilyn y llawlyfr cenedlaethol i glercod ac unrhyw arweiniad arall a roir gan UNLLAIS Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu gorff perthnasol arall.

7. DERBYN SWYDD

Fe wnaiff y clerc sicrhau fod pob person a ddaw'n aelod o'r Cyngor yn cwblhau datganiad ysgrifenedig derbyn swydd.

8. GWAITH Y CYNGOR

Gweithreda'r Cyngor trwy gyfarfodydd misol, is-bwyllgorau a chyfarfodydd arbennig lle y mae'n addas.

Caiff cyfarfodydd misol o'r cyngor eu galw trwy rybudd cyhoeddus hefo agenda wedi ei baratoi gan y clerc a'i rannu i holl aelodau'r Cyngor.

9. PRESENOLDEB

Fe gaiff aelod ei ddiarddel os y metha bresenoli ei hun am gyfnod o chwe mis yn olynol yn unrhyw un o gyfarfodydd y cyngor, oni bai bod y methiant i wneud hynny am reswm y mae'r awdurdod wedi cytuno arno cyn diwedd y cyfnod. Mae'r term

"cyfarfod o'r cyngor" yn cynnwys unrhyw is-bwyllgor, neu gyfarfod o unrhyw gyd-bwyllgor, neu gyd-fwrdd neu gorff arall y mae'r Cyngor Cymuned wedi rhyddhau ei ddyletswyddau iddo. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb fel cynrychiolydd o'r cyngor mewn cyfarfod o unrhyw gorff arall o bobl.
Adran 85 (1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 1972

10. PWYLLGORAU

Fe all y Cyngor ffurfio is-bwyllgorau fel y bo'n addas a threfnu iddynt weithredu fel y gwna'r Cyngor heblaw am y grym i drefnu praesept neu fenthyg arian.

11. COFNODION

Rhaid cadw cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Rhaid iddynt gael eu llunio gan y swyddog cymwys o'r Cyngor Cymuned (clerc) os oes yna un, neu os nad oes gan y swyddog cymwys o Gyngor Gwynedd. Rhaid iddynt gael eu derbyn yn gofnod cywir a'u harwyddo gan y Gadair neu'r un sy'n llywyddu ar gychwyn cyfarfod nesa'r Cyngor.

Nid oes rhaid i'r clerc fod yn bresennol mewn is-bwyllgorau neu gyfarfodydd arbennig ond fe ddylai'r un sy'n cadeirio'r cyfarfod wneud yn siŵr y gwneir cofnod o benderfyniadau/weithrediadau.

12. EIDDO/TIR O DAN BERCHNOGAETH Y CYNGOR CYMUNED

a) Perchnogaeth

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros amrywiol ddarnau o eiddo a thir. Gellir eu disgrifio'n gryno fel:

- Mynwent Gymunedol yn Llanfair-is-gaer
- Neuadd Goffa
- 2 le parcio'n y maes parcio sydd wrth y Neuadd Goffa
- Cofeb y Cloc
- Maes Parcio – cefn Stryd Bangor
- Llwybr a'r tir o gwmpas sy'n arwain o'r Maes Parcio at y Lôn Las
- 3 arhosfa bws (cyferbyn Siop Londis, cyferbyn Eglwys St. Mair ac Aberpwll).
- Tir sydd ar brydles oddi wrth Gyngor Gwynedd ar y Lôn Las. (y rhan ar ben Caernarfon o'r lôn).

b) Diddordebau eraill

Mae'r cyngor yn talu un bunt y flwyddyn am lwybr trwy ganiatâd yn Rowen trwy gytundeb â pherchennog y tir.

c) Cyfrifoldebau Cyngor Gwynedd

Mae ardaloedd eraill o dir o fewn i'r pentref yn eiddo i/neu o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Y prif safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor ac o ddiddordeb i'r gymuned ydi:

- Ffordd y Traeth/Glan y Mor – mannau parcio, ardal hamdden laswellt, offer chwarae, toiledau, cae chwarae.
- Llwybr beicio Lôn Las
- Ardal chwarae yn Y Wern
- Cae chwarae'r ysgol
- Gweithdai/unedau diwydiannol ar y llwybr beics y tu ôl i Stryd Bangor.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol hefyd am y goleuadau stryd, palmentydd, priffyrdd, cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus, cyfleusterau'r ysgol etc.

13. CYLLIDEB a PRAESEPT

a) Praesept ac Incwm

Daw prif gyllid ac incwm y Cyngor o'r taliad praesept cymunedol blynyddol. Cesglir hwn gan Gyngor Gwynedd i'w dalu i'r Cyngor Cymuned mewn dau randaliad. Mae'r praesept yn darparu incwm/cyllideb i'r Cyngor.

b) Taliad i'r Eglwys

Fel mater o bolisi fe wna'r Cyngor daliad o £500 i Eglwys St Mair ar gyfer cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys. Gall y Cyngor adolygu neu ddiddymu'r penderfyniad hwn yn y dyfodol.

c) Grantiau eraill

Fe wnaiff y Cyngor ystyried grantiau ar gyfer mudiadau lleol ym mis Mai bob blwyddyn. Caiff grantiau eu rhoi ar ddau amod: Dylai'r Cyngor Cymuned fod yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt roi grantiau yn unol â'r pwerau sydd ganddynt.

a) grwpiau sydd wedi eu canoli o fewn i ffiniau'r cyngor cymuned, ac
b) yn sgîl cyflwyniad mantolen ariannol

14. YSWIRIANT

Mae'r cyngor yn cadw polisi yswiriant ar gyfer cyfarfod unrhyw hawliadau am atebolrwydd cyhoeddus allai ddod i ran y Cyngor.

15. ARCHIF O BENDERFYNIADAU

Bydd y clerc yn dal gafael ar y cofnodion am dair blynedd.

Caiff cofnodion ariannol eu cadw am y cyfnod a nodir yn y rheolau perthnasol.

Mae archif o gofnodion y Cyngor wedi eu gosod gyda Gwasanaethau Archifol Cyngor Gwynedd, Doc Fictoria, Caernarfon.

Rhan 2

RHEOLAU A CHYFANSODDIAD

1. Y CYNGOR

1.1 Adwaenir y Cyngor fel Cyngor Cymuned Y Felinheli.

1.2 Mae yna 13 aelod o'r Cyngor a etholwyd gan rai sydd ar y gofrestr etholiadol ac sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau perthnasol.

Bydd y Cyngor yn gweithredu o fewn fframwaith y gyfraith a'r rheolau sy'n effeithio ar lywodraeth leol.

2. CWORWM

a. Pedwar aelod fydd y cworwm ar gyfer cyfarfod llawn o'r Cyngor.

3. CYFARFODYDD

a. Bydd y Cyngor yn cyfarfod unwaith y mis (ar yr ail ddydd Mawrth fel arfer) oni bai am fis Awst.

b. Caiff cyfarfodydd eu galw trwy hysbysiad oddi wrth y clerc sy'n rhoi o leiaf dri diwrnod o rybudd.

c. Os nad yw'r clerc ar gael dylai'r cyfarfod gael ei alw gan y cadeirydd/is-gadeirydd sydd i drefnu hefyd bod cofnodion yn cael eu cadw.

ch. Dangosir hysbysiad cyhoeddus ar hysbysfwrdd y gymuned yn hysbysu'r cyhoedd o fanylion cyfarfodydd a manylion cyswllt y clerc.

IS-GYFARFODYDD A CHYFARFODYDD AD HOC

a) Mynwent

Caiff is-bwyllgor o dri pherson ei ethol yn y cyfarfod blynyddol i ystyried materion yn ymwneud â diogelwch, cynnal a chadw a rheolaeth o'r fynwent gymunedol.

b) Is-bwyllgorau eraill

Caniateir ffurfio is-bwyllgorau eraill a chyfarfodydd ad hoc lle y bo'n addas iddynt gyflawni tasgau a benodwyd gan y Cyngor llawn.

Dylai is-bwyllgor gael lleiafrif o dri aelod a dylai dau ohonynt fod yn bresennol i drafod materion a gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn.

4. SIARADWYR A GWESTEION

a. Fe all y Cyngor wahodd siaradwyr a gwesteion eraill i annerch y Cyngor. Dylai'r trefniadau hyn gael eu gwneud trwy ymgynghori â'r cadeirydd a'r/neu'r is-gadeirydd. Fel arfer y siaradwyr gwadd fydd eitem gyntaf cyfarfod o'r Cyngor oni bai i'r cyfarfod benderfynu'n wahanol.

b. Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau cyffredin y Cyngor ac i siarad yno â chaniatâd y Cyngor.

c. Yn yr un modd caiff y wasg fynychu cyfarfodydd y Cyngor.

Fe all aelodau o'r cyhoedd a'r wasg gael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod trafodaethau eitemau penodol ac am resymau sydd wedi eu hegluro yn canllawiau statudol, eitemau cyfrinachol fel arfer.

5. COFNODION

5.1 Bydd y clerc yn cadw cofnod o gyfarfodydd y Cyngor llawn a chofnod o bob penderfyniad. Cyflwynir y cofnodion fel arfer i'r cyfarfod dilynol er mwyn i'r cynghorwyr eu gwirio.

5.2 Cedwir ffeil o'r cofnodion gan y clerc am dair blynedd cyn eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Archifau.

6 CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD

Ethol cadeirydd fydd gwaith cyntaf cyfarfod blynyddol y Cyngor a rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod o'r Cyngor.

Prun ai ydy'r Cyngor wedi pasio unrhyw reolau sefydlog neu beidio, mae awdurdod y Cadeirydd yn deillio o'r Cyngor cyfan ac mae angen i gynghorydd unigol ufuddhau i'w orchmynion gan mai gorchmynion y Cyngor ei hun ydynt. Mae'n dilyn o hyn, fodd bynnag, na all y Cadeirydd uwch reoli'r Cyngor. Gall cynghorydd sy'n anfodlon â dyfarniad y Cadeirydd wahodd y Cyngor i anghytuno gydag ef. Dylai apeliadau fel hyn yn erbyn y Gadair fod yn eithriadau prin iawn.

Mae awdurdod y Cadeirydd wedi ei gyfyngu i faterion o drefn ac nid yw'n cynyddu neu'n lleihau ei hawl ef neu hi (o gymharu â'r aelodau eraill) i drafod achos arbennig. Un o'r tasgau anoddaf i'w chofio yw er fod gan y Gadair awdurdod ar faterion o drefn, nid yw'n golygu fod gan y Cadeirydd unrhyw oruchafiaeth ar faterion polisi (oni bai am y bleidlais fwrw).

Y cadeirydd a'r is-gadeirydd fydd yn cynnig arweiniad i waith y Cyngor ac a fydd yn gyfrifol am arwain a chynghori'r clerc ar unrhyw weithredu brys sydd ei angen rhwng cyfarfodydd.

7. **GWNEUD PENDERFYNIADAU**

a) Consensws

Bydd y Cyngor yn ceisio cyrraedd penderfyniadau ar sail trafod a chyrraedd consensws. Bydd y Cadeirydd yn arwain y trafodaethau ac yn cael cadarnhad am unrhyw safbwynt(iau) cyffredin fydd yn dod i'r amlwg gan gytuno ar eiriad cynnig sydd i'w gofnodi yn y cofnodion.

b) Pleidleisio

Bydd pob penderfyniad (ag eithrio penodi rhyddfreiniwr anrhydeddus) gyda'r mwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio.
(Deddf Llywodraeth Leol 1972 Rhan 2, paragraff 39(1)

Bydd angen pleidleisio ar welliannau i gynnig cyn y prif gynnig.

Oni bai fod rheolau sefydlog y cyngor yn darparu ffordd arall o bleidleisio mewn cyfarfodydd y cyngor cymuned dylid pleidleisio drwy godi llaw.
Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rhan 12, paragraff 29(1)

Mae'n bosib i unrhyw aelod ofyn i bleidlais ar unrhyw benderfyniad gael ei chofnodi er mwyn dangos oedd pob aelod oedd yn bresennol ac yn pleidleisio wedi rhoi ei bleidlais/phleidlais o blaid neu yn erbyn y cwestiwn hwnnw – mae hynny yn golygu nad oes angen lleiafrif o aelodau i wneud cais o'r math.
Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rhan 12, paragraff 29(2)

Pe digwydd i'r bleidlais fod yn gyfartal, gall y Cadeirydd ddefnyddio pleidlais fwrw os yw ef/hi yn dymuno gwneud hynny.

Mae modd cynnal pleidlais gudd os yw pump aelod sy'n bresennol yn dymuno hynny. Bydd y clerc yn trefnu i ddosbarthu papur pleidleisio ac yn trefnu i gyfri'r pleidleisiau fydd yn cael eu bwrw mewn pleidlais o'r fath. Bydd y clerc yn cyhoeddi'r canlyniadau i'r Cadeirydd a bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r canlyniad i'r cyfarfod.

8. RHYBYDD BUSNES

Bydd angen cynnwys hysbysiad o dri diwrnod clir cyn cyfarfod o Gyngor Cymuned a gorchymyn i ddod i'r cyfarfod yn sôn am y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod wedi ei arwyddo gan swyddog priodol y cyfarfod. Dylid anfon neu adael yr ohebiaeth yn man preswylio arferol pob aelod o'r Cyngor.
Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rhan 12, paragraff 26(2)(b)

9. CLERC

Y Clerc fydd swyddog cyllid cywir y Cyngor.

10. ARCHWILIAD MEWNOL

Bydd y Cyngor yn penodi archwiliwr mewnol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

11. ARCHWILIAD ALLANOL

Bydd y Clerc yn sicrhau fod cofnodion ariannol cywir yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio yn unol a'r rheolau perthnasol.

12. RHEOLAU ARIANNOL

a) Man waith (hyd at £500)

Mae gan y Clerc yr hawl i wario hyd at £500 ar fan eitemau ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd.

Mae angen i ddau aelod o'r Cyngor arwyddo pob siec neu archeb taliad gan y Cyngor Cymuned.
Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 150(5)

b) Gwaith rhwng £500 a £2000

Bydd y clerc yn gwahodd prisiau gan dri cwmni/darparwyr. Gall y clerc dderbyn unrhyw brisiau erbyn y dyddiad dan sylw a gwirio eu bod yn cyd-fynd â'r manyleb gwaith a ddarparwyd. Fel arfer, dylai'r clerc wneud adroddiad gydag argymhelliad i'r Cyngor am ganiatâd er mwyn i'r gwaith fynd yn ei flaen.

c) Dros £2000

Bydd y Cyngor yn gwahodd tendrau wedi eu selio yn unol a manyleb gwaith sy'n cael ei darparu. Gosodir dyddiad ar gyfer dychwelyd y tendrau ac fe fyddan nhw'n cael eu hagor yng nghyfarfod llawn y Cyngor.

EITHRIADAU

Gellir caniatáu eithriadau i'r rheolau uchod pan fo'r clerc yn credu fod angen gweithredu ar frys oherwydd diogelwch y cyhoedd neu i amddiffyn safle cyfreithiol y Cyngor. Dylid ymgynghori â'r Gadair, pan fo hynny'n bosib, cyn gwariant o'r math.

13. CYFARFOD BLYNYDDOL

Dylid cynnal y cyfarfod blynyddol ym mis Mai bob blwyddyn, ag eithrio ym mlwyddyn etholiadau cyffredin y cynghorwyr cymuned. Bryd hynny, dylid cynnal cyfarfod blynyddol y Cyngor Cymuned ar neu o fewn 14 diwrnod o'r dydd pan fydd y cynghorwyr a etholir yn yr etholiad yn cymryd eu swyddi.

Bydd y cyfarfod blynyddol yn trafod y busnes sydd ar yr agenda a bydd yn cynnwys:

Ethol Cadeirydd

Ethol Is-Gadeirydd

Ethol Is Bwyllgorau

Ethol Archwiliwr Mewnol

Adroddiad Cyllid

Cwestiynau gan y cyhoedd

Adroddiadau

Mae gan drigolion y gymuned hawl i ddod i'r cyfarfod blynyddol a gofyn cwestiynau am fusnes, cyllid neu faterion eraill sy'n berthnasol i'r Cyngor.

14. CYFLOGAETH

Mae'r Cyngor yn cyflogi clerc a gofalwr ac yn cael cyflogi staff neu ymgymerwyr eraill fel bo angen i gwblhau gwaith y Cyngor.

15. ASSEDION

Gall y Cyngor drefnu i drosglwyddo asedion ac ati i reolaeth mudiadau eraill ar ôl trafodaeth a phenderfyniad gan y Cyngor gan fodloni eu hunain, gan dderbyn cyngor proffesiynol fel bo'n addas, y bydd y trefniadau newydd yn cyflawni'r pwrpas sydd ei angen ar y Cyngor.

16. GRANTIAU

a) Cynigion Grant

Mae gan y Cyngor hawl i gynnig grantiau yn unol â'u pwerau am bwrpas cyfreithlon sy'n gyson â gwaith y Cyngor.

b) Ceisiadau am Grant

Gall y Cyngor hefyd bleidleisio i geisio am grantiau ac ati gan gyrff allanol i gefnogi prosiectau sydd o fudd i'r pentref.

17. SEDDI GWEIGION A CHYF-ETHOL

17.1 Ar ôl hysbysebu drwy rybudd cyhoeddus yn unol â Deddf Llywodraeth Leol pan ddaw sedd yn wag, gall y Cyngor gyfethol etholwyr cymwys i lenwi'r seddau gwag.

17.2 Dylid cyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn cyfetholiad i'r Cyngor

18.PERTHYNAS GYDA'R CYNGHORYDD SIR

18.1 Os nad yw Cynghorydd Sir Y Felinheli yn aelod wedi ei ethol yn uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned, bydd ef/hi yn aelod o'r cyhoedd ac efallai y bydd amseroedd pan fydd angen i'r Cyngor Cymuned ei eithrio o neu hi o gyfarfodydd, er enghraifft ar gyfer trafod eitemau preifat.

18.2 Noda'r Cyngor Cymuned y gall y Cynghorydd Sir fynychu fel bo'n addas i'r busnes dan sylw ond mae'n gofyn iddo/iddi fynychu o leiaf unwaith bob

chwarter i gyflwyno adroddiad a derbyn sylwadau ar unrhyw fusnes sy'n ymwneud â Chyngor Gwynedd neu ei waith o neu hi fel cynghorydd.

19 ANGHYDFOD

Bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â dehongli'r rheolau hyn yn cael ei datrys drwy gyfeirio at unrhyw fodelau neu ymarfer da sy'n cael ei gyhoeddi gan UNLLAIS CYMRU a/neu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Os nad oes modd datrys unrhyw fater, gofynnir i UNLLAIS CYMRU gynnig cyngor.